

# DOLEN Y TAB 118

26 - 27 Awst 2022

## Oedfa Sul 28 Awst am 11

Oedfa yng ngofal Allan James gydag Eleri yn cyfeilio.

Unwaith yn rhagor byddwn yn estyn croeso cynnes i aelodau Bethlehem, Gwaelod y Garth i gyd-addoli gyda ni yn Efail Isaf.

## YR OEDFAON NESAF

### Medi

- 4 Dan ofal aelodau'r Twmiaid gyda chyfle i groesawu ymwelwyr o Wcrain
- 11 Y Parchedig Aled Edwards
- 18 Dr Nathan Munday
- 25 Y Parchedig Gethin Rhys

### Hydref

- 2 Ann ac Emlyn Davies
- 9 Y Parchedig. Aled Edwards gyda'r Parchedig Eirian Rees yn llywyddu.

## Hefyd ddydd Sul 28 Awst

**7.30yb / 4.30yp Radio Cymru - Caniadaeth y Cysegr** Huw Foulkes yn trafod sut mae rhai o'n corau'n cyfrannu tuag at ein traddodiad emynyddol

### 12.00 Radio Cymru

Oedfa yng ngofal Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn, ar drothwy Cymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd yn Karlsruhe yn yr Almaen.

### 12.30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.



**PANED A CHLONG**  
Dewch am glonc gyfeillgar ac hamddenol

**CUPPA AND A CHAT**  
Come for a friendly and relaxed chat

Bob Dydd Mawrth  
Every Tuesday  
10.30-12.00

Y Ganolfan  
Capel Tabernacl  
The Vestry,  
Tabernacl Chapel

## Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 6 Medi. Os oes gennych gwestiwn i'w holi neu fater yr hoffech i'r Bwrdd ei drafod, rhowch wybod i'r Ysgrifennydd erbyn nos Lun 5 Medi fan bellaf (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205).

## Merched y Tab

### SGŴRS DROS BANED

10.30 Bore Gwener 9 Medi

Y Ganolfan

### Croeso cynnes i bawb

## Prysurdeb yn Parhau

Ni fu pall ar brysurdeb llafurwyr yr ardd gymunedol yn ystod yr wythnosau diwethaf wrth i lawer o'r blodau a'r llyisiau ddod i'w llawn dwf ar waethaf y frwydr ddyddiol yn erbyn y gwres tanbaidd a'r sychder. Yn yr un modd bu galw cyson am nwyddau i'r rhai oedd yn symud i'w cartrefi eu hunain yn waglaw, yn cael ei ddiwallu gan y criw ffyddlon o wirfoddolwyr sydd wedi bod wrthi'n cadw trefn drwy'r haf ar yr holl gyfraniadau hael a gyflwynwyd gan aelodau a chyfeillion y Tabernacl tuag at y gwaith dyngarol gwerthfawr a gyflawnir.

## Mainc Goffa Newydd

Bellach mae trydedd mainc goffa wedi ei gosod yn y cwtsh meddwlgarwch. Cyflwynwyd y fainc gan y gynulleidfa Saesneg ei hiaith er cof am y ddiweddar Dr. Vera Gammon fu'n aelod ac yn organydd i'r gynulleidfa am flynyddoedd lawer.

## Dymuniadau Gorau

Da deall bod Geraint Rees wedi derbyn y lawdriniaeth hir-ddisgwylidig yn ystod y mis, a bellach mae'n mwynhau'r holl dendans a gofal gartref gan Caroline. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo.

## Llogi'r Capel / Ganolfan

### E-bostiwrch

gehpengwern@yahoo.co.uk

### Neges Testun

07710 237327

### Ffonio

01443 225205

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org).

Gofynnir i chi anfon newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 /